

UN LLAIS CYMRU

DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB GWEITHIWR

Teitl y Swydd	Swyddog Cefnogi Prosiect Argyfwng Costau Byw	Cyflog Gradd	£33315 y.f. (Codiad cyflog yn yr arfaeth)
Yn atebol i Adroddiadau Uniongyrchol	Rheolydd Prosiect Argyfwng Costau Byw	Oriau	Rôl lawn amser
	Dim	Patrwm Gwaith	Bydd deiliad y swydd yn gweithio gartref yn bennaf, ac fe gytunir patrwm gweithio hyblyg (fydd yn cynnwys peth gwaith gyda'r nos)

Mwy am y Rôl

Caiff y rôl ei hadeiladu ar sail cyfraniad cyllidol sylweddol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth uniongyrchol ychwanegol i hwyluso newid trawsnewidiol ym mherfformiad Cynghorau Cymuned & Thref, a chynnig gwell deilliannau i gymunedau ledled Cymru.

Pwrpas y Rôl

Darparu cymorth Swyddog Prosiect i'r prosiect Argyfwng Costau Byw, a chyfrannu at gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus. Mae'r prosiect yn anelu at gefnogi CC&Th i gynnig gwell cefnogaeth i aelwydydd incwm isel / pobl fregus mewn cymunedau ledled Cymru yn ystod yr argyfwng costau byw presennol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolydd Prosiect Argyfwng Costau Byw, bydd y rôl yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus.

Mae'r prif dasgau'n cynnwys:

- Cynorthwyo gyda gweithdai a chyfarfodydd gan gynnwys trefnu, hwyluso, casglu allbynnau a chynllunio dogfennaeth.
- Cynnal ymchwil a dadansoddi gwybodaeth, a gwneud argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau.
- Cofnodi, rheoli ac adrodd ar gynnydd prosiectau er mwyn olrhain buddion.

- Cynnal gweithgarwch prosiect benodol gan ddefnyddio meddalwedd briodol.
- Gweinyddu mynediad at becynnau TG, offerynnau rheoli prosiect a data tîm y prosiect.
- Cydlynu esboniadau a deunyddiau cyfathrebu, trefnu cyfarfodydd fideo TEAMS yn ôl y galw.
- Darparu cymorth ar gyfer tasgau o bob math yn unol â gofynion y prosiect / yn ôl cyfarwyddyd.

Mwy am Un Llais Cymru

Un Llais Cymru yw'r prif gorff ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru, ac mae'n cynnig llais cryf i gynrychioli buddiannau cyngorau a nifer fawr o wasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi eu gwaith gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, cymorth gyda pholisi a gweithdrefnau, gwasanaethau hyfforddiant a datblygu, gwasanaethau ymgynghorol, a chynrychioli a hyrwyddo'r sector.

Mae tua 732 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Fel un o haenau llywodraeth leol, maent yn gyrrff etholedig, ac mae ganddynt rymoedd arddewisol a hawliau a gyflwynwyd gan Senedd y DG a'r Senedd i gynrychioli eu cymunedau a darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

MANYLEB GWEITHIWR

Dylech roi sylw arbennig i'r meini prawf hanfodol a dymunol isod a darparu tystiolaeth o sut rydych yn credu eich bod yn eu bodloni fel rhan o'ch cais. Gall methu gwneud hynny olygu na fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer.

Meini Prawf Hanfodol (H) / Dymunol (D)		Dull Asesu
Cymwysterau / Cofrestriadau Proffesiynol / Aelodaeth	Gradd israddedig a/neu brofiad gwaith cyfatebol mewn rôl cefnogi prosiect. (H)	Ffurflen gais / Tystysgrifau
Profiad	Profiad o gyflawni amcanion penodol, gan gynnwys cyrraedd targedau o fewn cyfnodau amser penodedig. (H)	Ffurflen gais & chyfweliad
	Profiad o weithio gydag ystod o fudd-ddeiliaid a sefydliadau allanol i ddarparu cefnogaeth a gweinyddiaeth effeithiol i dîm y prosiect. (H)	Ffurflen gais / Cyfweliad
Sgiliau, Gwybodaeth, Gallu (gan gynnwys y gallu i ddatblygu'r	Gwybodaeth fras am dechnegau a dulliau rheoli prosiect. (H)	Ffurflen gais / Cyfweliad

Meini Prawf Hanfodol (H) / Dymunol (D)		Dull Asesu
wybodaeth, sgil neu brofiad perthnasol)	Y gallu i drefnu baich gwaith personol, blaenoriaethu gofynion croes a gweithio o fewn amserlenni'r tîm. (H)	Ffurflen gais / Cyfweliad

	Gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag amrywiol unigolion a grwpiau, yn fewnol ac allanol. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Y gallu i gefnogi'r gwaith o asesu a dadansoddi gwybodaeth i gynhyrchu adroddiadau, mewn fformatau amrywiol, ar gyfer budd-ddeiliaid o bob math, yn ôl y galw. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Gwerthfawrogiad o effaith anhydraddoldeb ar iechyd a llesiant cyhoeddus, a pharodrwydd i ddatblygu gwybodaeth am y maes hwn ymhellach. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Y gallu i ddehongli a phrosesu ffynonellau data perthnasol ar bapur neu gyfrifiadur a chynnal cyfrinachedd a diogelwch. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Y Gymraeg Mae sgiliau iaith Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) yn ddymunol ar gyfer y rôl hon, ond nid yn hanfodol. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Cydymffurfio â rheolau, rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
Amgylchiadau Cysylltiedig â Gwaith Gwerthoedd y Cyngor	Ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal. (H)	Cyfweliad
	Y gallu i weithio'n effeithiol o fewn amgylchedd tîm, cefnogi eraill, neu weithio'n annibynnol yn ôl y galw. (H)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd ar gyfer pobl leol. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Cydymffurfio â rheolau, rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. (H)	Cyfweliad

	Ymrwymiad i a ffocws ar werthoedd y Cyngor o arloesi, galluogi ac o barchu eraill. (D)	Ffurflen gais / Cyfweliad
	Gallu bodloni'r gofynion teithio er mwyn cyflawni'r swydd – efallai y bydd angen mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau (H).	Ffurflen gais / Cyfweliad

Cynigir y swydd hon ar gontract cyfnod penodol hyd at 31 Mawrth 2026 Bydd secondiadau o gyrff sector cyhoeddus a mudiadau Trydydd Sector eraill yn cael eu hystyried.